



Adroddiad Monitro Blynyddol

Safonau'r Gymraeg

2022-2023

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	5
Cefndir.....	6
Rhan 1: Adolygu 2022-23.....	7
Trosolwg.....	7
Gwasanaeth Therapi Gwybyddol Ymddygiadol Ar-lein SilverCloud.....	7
Archwiliad ar Safonau'r Gymraeg.....	8
Grŵp Llywio Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg	8
Rhwydweithiau <i>Yammer</i> Cymraeg / Dysgu Cymraeg GIG Cymru.....	8
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg.....	9
Codi Ymwybyddiaeth a Digwyddiadau	9
Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg	10
Lefelau Sgiliau Cymraeg presennol yn BIAP	10
Rhan 2: Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg	13
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	13
Safonau Llundio Polisi	24
Safonau Gweithredu	25
Cadw Cofnodion a Safonau Atodol.....	32
Fframwaith Mwy na Geiriau	33
Symud Ymlaen: Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2023-24.....	41

Rhagair

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y bedwaredd flwyddyn ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg, ac felly'n cyhoeddi ein pedwerydd Adroddiad Blynyddol dan y Safonau hyn, rwyf wedi ymhyfrydu yn y newid sylweddol a welwyd dros y cyfnod hwn o ran ein darpariaeth Gymraeg: mae'r Safonau wedi, ac yn parhau i wneud, gwahaniaeth gwirioneddol i siaradwyr Cymraeg ar draws Powys.

Fel siaradwr Cymraeg fy hun, mae'r materion hyn yn bwysig i mi yn bersonol ac yn broffesiynol. Er fy mod yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd o ran sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol ar draws ein gwasanaethau, credaf serch hynny y gallwn ymfalchïo yn y pethau hynny yr ydym wedi'u cyflawni, ac yn y gwaith sy'n parhau i gael ei wneud bob dydd ar draws ein sefydliad.

Ymlaen!

Hayley Thomas

Prif Weithredwr Dros Dro

Mae'n anodd dychmygu cyd-destun gofal iechyd anoddach na'r GIG yn 2022-23. Roedd y system yn parhau dan straen yn sgil ôl-ffeithiau Pandemig Covid-19 ar ddechrau'r flwyddyn, gyda rhestrau aros, absenoldeb staff a phrinder staff yn dal i fod ar y lefelau uchaf erioed. Mae'r rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw wedi gwaethygu llawer o'r problemau hyn trwy gynyddu'r straen meddyliol ar ein staff a'n cleifion wrth i chwyddiant ddifrodi'r adnoddau sydd ar gael i ddelio â nhw.

Serch hynny, fel sefydliad swyddogol dwyieithog rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i sicrhau bod modd cyrchu ein gwasanaethau yn Gymraeg, ac nid ydym wedi defnyddio'r cyd-destun anodd fel esgus dros ddad-flaenoriaethu neu ddiffyg gweithredu. Rydym wedi gweithio'n galed dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig wrth ailasesu ein sefyllfa cydymffurfio trwy archwiliadau, ymweliadau â safleoedd ac asesu ein prosesau atebolrwydd ynghylch y safonau.

Mae cyflwyno gwasanaethau newydd a diwygiedig hefyd wedi bod yn thema cryf, gyda gwasanaethau newydd yn cael eu lansio fel SilverCloud® (ac eraill i ddod yn 2023-24) a gweithio ar gyfleusterau newydd fel ym Mro Dyfi (Machynlleth), ac yn y tymor hir, campws Gogledd Powys. Mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod y Gymraeg a gofynion y safonau yn cael eu hystyried yn y datblygiadau hyn i gyd.

Fel rhan o ad-drefnu cyfrifoldebau gweithredol ehangach ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, mae cyfrifoldeb gweithredol dros gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wedi symud o'r Gyfarwyddiaeth Therapïau a Gwyddorau Iechyd i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Fodd bynnag, nid oes disgwyl y bydd ffocws ein gwaith yn y maes hwn yn newid, ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal a gwella nid yn unig ein cydymffurfiaeth â'r Safonau ond

hefyd i sicrhau, lle bynnag y bo modd, y gall trigolion Powys sy'n dymuno cael mynediad at eu gofal iechyd yn Gymraeg yn gwneud hynny.

Debra Wood-Lawson

Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Arweinydd Gweithredol y Gymraeg a Chydraddoldeb.

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan BIAP i weithredu Safonau'r Gymraeg fel y nodwyd yn ein hysbysiad cydymffurfio.

Nodir manylion am y cynnydd a wnaed trwy gydol 2022-2023. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau a wnaed yn y meysydd canlynol:

- Darparu gwasanaeth Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ar-lein SilverCloud Cymru Gyfan yn Gymraeg;
- Cyflwyno mewnrwyd newydd BIAP, a ddyluniwyd o'r dechrau gan gadw cydymffurfiaeth llawn â Safonau'r Gymraeg mewn golwg. Yn ogystal, mae'r tudalennau Cymraeg ar y fewnrwyd yn cynnwys casgliad allweddol o adnoddau, dolenni defnyddiol at wybodaeth ynghylch cydymffurfio â'r Safonau a'r Fframwaith Mwy na Geiriau, yn ogystal â'r defnydd ehangach o'r Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd.
- Ailgynllunio ac ail-lansio grŵp Arweinwyr Gwasanaeth Cymraeg, gyda Chylch Gorchwyl newydd yn sicrhau mwy o gyfrifoldeb dros bresenoldeb a chylch gwaith penodol i uwchgyfeirio materion o ddiffyg cydymffurfio neu ddiffyg presenoldeb i gyfarwyddwyr.
- Mae cyflwyno system Profiad Cleifion CIVICA wedi galluogi BIAP, am y tro cyntaf i gasglu data systematig am ddefnydd cleifion o'r Gymraeg wrth dderbyn ein gwasanaethau (neu eu hanallu i'w defnyddio).
- Ailgynllunio ein polisi a'n gweithdrefnau recriwtio i hyrwyddo'r defnydd priodol o ofynion sgiliau Cymraeg mewn swyddi gwag.
- Cyflwyno Cylchlythyr y Gymraeg dwyieithog i staff, gan hyrwyddo cyfleoedd dysgu a datblygu.
- Esblygiad ein rhwydwaith staff sy'n siarad Cymraeg yn grŵp GIG Cymru gyfan ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg ar rwydwaith cymdeithasol proffesiynol *Yammer*;
- Parhau i hyrwyddo cyfathrebu o amgylch digwyddiadau cenedlaethol fel Eisteddfod GIG Cymru, a digwyddiad dwyieithog Y Fari Lwyd ar gyfer y flwyddyn newydd.

Yn gyffredinol, mae'r bwrdd iechyd yn parhau i weithio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y rhan fwyaf o'r safonau yn cael eu bodloni yn y mwyafrif o amgylchiadau. Mae'r bwrdd iechyd yn perfformio'n arbennig o dda mewn meysydd fel cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol, ac mewn meysydd lle mae systemau'n cael eu rheoli'n ganolog (e.e. prosesau recriwtio fel cynnig contractau, asesu sgiliau Cymraeg darpar ymgeiswyr a'u gwahodd i wneud cais yn Gymraeg/defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad.)

Ceir mwy o wybodaeth am yr uchod, ochr yn ochr â chyfrif manwl o gydymffurfiaeth y bwrdd iechyd yn erbyn pob un o'r Safonau yn Rhan 2 yn yr adroddiad hwn.

Cefndir

Rhaid i BIAP, ynghyd â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru, gydymffurfio â chyfres o Safonau fel yr amlinellir yn [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018](#).

Er mai Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r safonau, y Comisiynydd sydd i benderfynu pa safonau sy'n gymwys i gorff penodol. Ym mis Tachwedd 2018, cyflwynodd y Comisiynydd hysbysiad cydymffurfio BIAP a oedd yn amlinellu'r safonau sydd rhaid cydymffurfio â nhw, a'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid iddo gydymffurfio. Mae copi o hysbysiad cydymffurfio BIAP ar gael [yma](#).

Fel rhan o'r Safonau hyn mae gofyniad i BIAP fonitro gweithrediad y Safonau a llunio Adroddiad Blynyddol (y ddogfen hon) sy'n rhoi manylion ar sut mae'r bwrdd iechyd wedi cydymffurfio â'r Safonau.

Rhaid i bob aelod o staff dwyn cyfrifoldeb am weithredu'r Safonau ar draws BIAP. Bydd Arweinwyr y Gwasanaethau'n monitro cydymffurfiaeth o fewn eu meysydd gwasanaeth eu hunain ac yn adrodd cynnydd i Reolwr Gwella Gwasanaethau'r Gymraeg a fydd yn cynghori ac yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Safonau yn unol â hynny. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, bydd Rheolwr Gwella Gwasanaeth y Gymraeg yn drafftio adroddiad blynyddol a fydd yn cael ei gyflwyno i Arweinydd Gweithredol y Gymraeg a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Bwrdd cyn cael ei gyhoeddi ar wefan y bwrdd iechyd.

Rhan 1: Adolygu 2022-23

Trosolwg

Mae llacio cyfyngiadau Covid-19 wedi galluogi rhai gweithgareddau a oedd yn amhosibl o'r blaen i ailddechrau, megis aelodau tîm y Gymraeg yn ymweld â safleoedd at ddibenion archwilio/cynghori, a hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae hyn wedi galluogi asesiad mwy cywir o'r sefyllfa cydymffurfio a 'dechrau newydd' i'r sefydliad; roedd archwiliad amserol o brosesau'r sefydliad sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn rhoi hwb ychwanegol i adrannau ar draws y sefydliad ailedrych ar y safonau a chynnal asesiad cyfredol o'u cydymffurfiaeth. Mae hyn wedi gwella'r sefyllfa a/neu wedi rhoi sicrwydd ychwanegol ynghylch nifer y safonau 'busnes fel arfer' llai megis dosbarthu cortynnau Iaith Gwaith a bathodynau i staff sy'n siarad Cymraeg, sicrhau bod yr holl ohebiaeth safonol yn ddwyieithog fel mater o drefn, a bod llofnodion e-bost yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

Yn ogystal â'r gwelliant cyffredinol hwn, mae rhai meysydd datblygu penodol sy'n werth eu hamlygu:

Gwasanaeth Therapi Gwybyddol Ymddygiadol Ar-lein SilverCloud

Mae SilverCloud® yn wasanaeth iechyd meddwl digidol newydd a gynhelir gan BIAP ar ran Cymru gyfan. Yn syml, mae'r gwasanaeth yn darparu cyrsiau hunangymorth ar-lein dan arweiniad, yn seiliedig ar Therapi Gwybyddol Ymddygiadol, lle mae cyfranogwyr yn gweithio ar fater iechyd meddwl / lles penodol sy'n effeithio arnynt yn bersonol (megis gorbryder, iselder, defnyddio sylweddau, neu faterion eraill). Cynhelir y cwrs yn gyfan gwbl ar-lein trwy gyfuniad o ddysgu hunangyfeiriedig a thrwy ryngweithio â gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymwys a all drafod y materion sy'n effeithio ar y claf, yn ogystal â darparu arweiniad ar gyfer yr ymarferion CBT.



Mae gofalu am eich babi yn dechrau trwy ofalu am eich hunain

Cymorth ar-lein i helpu rheoli eich lles yn ystod beichiogrwydd, yr enedigaeth ac ar ôl.

Cymorth sy'n siwtio chi
Cofrestrwch ar-lein heb angen atgyfeiriad gan Feddyg Teulu. Ewch ar gyflymder sy'n gyfleus i chi. Defnyddiwch y rhaglen 24/7 - unrhyw le, unrhyw bryd - o unrhyw ddyfais ar-lein.

Cymorth iechyd meddwl digidol sydd â naws personol
Byddwch yn cael Cefnogwr SilverCloud® penodol a fydd yn adolygu eich cynnydd ac yn gwirio gyda chi drwy neges ar-lein bob pythefnos.

Mae'n gweithio
Mae CBT yn effeithiol wrth lleihau symptomau gorbryder ac iselder, a gwella lles. I ddsygu mwylcofrestru, ewch i: nhs.wales.silvercloudhealth.com/signup

Bydd tua 1 o bob 5 menyw ac 1 o bob 10 dyn yn datblygu pryder iechyd meddwl, fel gorbryder neu hwyliau isel yn ystod y cyfnod amenedigol - dyma'r cyfnod yn ystod y beichiogrwydd a'r ffwyddyn ar ôl geni'r babi.

Gall rhaglen huanangymorth, dan arweiniad sydd ar gael ar-lein, **Gofod i Les Amenedigol**, helpu rhieni newydd a rhieni sy'n disgwyl i wella eich lles a chael cymorth iechyd meddwl mewn ffordd sy'n gyfleus i chi ffordd o fyw. Does dim angen atgyfeiriad gan feddyg teulu i ddefnyddio'r rhaglen - mae ar gael am ddim ar y GIG yng Nghymru i unrhyw un sy'n 16 oed neu hyn.

© 2023 SilverCloud®. Cofrestrwyd pob hawl. Mae SilverCloud® yn nod masnach cofrestrwyd American Well Corporation.

SilverCloud Wales
14 Mar at 17:50 · 🌐

Ni ddylai neb teimlo'n unig gyda'u problemau.

Os ydych chi rhwng 16-18 oed ac yn teimlo'n orbryderus neu'n isel, gall therapi gwybyddol ymddygiadol helpu.

📱 Ei ddefnyddio unrhyw le, unrhyw bryd drwy ffôn symudol, tabled neu liniadur.

🕒 Ewch ar gyflymder sy'n siwtio chi.

👉 Arweiniad rheolaidd gan gefnogwr SilverCloud.

📄 Does dim angen atgyfeiriad gan Feddyg Teulu.

<https://nhs.wales.silvercloudhealth.com/signup/>



Rhaglen SilverCloud®: **Gofod o Hwyliau Isel**
I bobl ifanc rhwng 16-18 oed

Rhaglen SilverCloud®: **Gofod o Orbryder**
I bobl ifanc rhwng 16-18 oed

Mae SilverCloud® ar gael i gleifion ar draws Cymru gyfan ac mewn cydweithrediad â tîm y Gymraeg, mae staff adran Iechyd Meddwl BIAP wedi bod yn gweithio i sicrhau bod cynnwys y system ar gael yn Gymraeg, a bod gan y tîm y gallu a'r sgiliau i weithio gyda chleifion yn Gymraeg.

Archwiliad ar Safonau'r Gymraeg

Comisiynwyd Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru i gynnal archwiliad cydymffurfiaeth y sefydliad â Safonau'r Gymraeg. Ynghyd ag archwilio proses mewnol y sefydliad ar fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth, roedd ymweliadau â'r safle hefyd yn rhan o'r archwiliad i asesu cydymffurfiaeth â'r safonau ynghylch arwyddion ac arddangosfeydd gwybodaeth. Nodwyd nifer o argymhellion a champau gweithredu er mwyn gwella prosesau a chydymffurfiaeth fewnol, sydd i gyd bellach wedi'u gweithredu neu ar y trywydd cywir i weithredu.

Grŵp Llywio Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg

Mae'r grŵp hwn wedi parhau i gwrdd ac mae'n rhan allweddol o broses fewnol BIAP ar gyfer bodloni gofynion y Safonau a monitro cydymffurfiaeth. Yn dilyn argymhellion yr archwiliad, mae Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y grŵp wedi cael eu hadolygu a'u cryfhau, gan gynyddu ei bwerau a'i gynrychiolaeth i'w caniatáu i gyflawni ei swyddogaethau yn well.

Rhwydweithiau Yammer Cymraeg / Dysgu Cymraeg GIG Cymru

Gyda llwyfan cyfryngau cymdeithasol y gweithle Yammer wedi'i gyflwyno yn BIAP, roedd yn gam naturiol i symud y rhwydweithiau staff a gynhaliwyd yn flaenorol ar Teams i'r plattform newydd i fanteisio ar ei ymarferoldeb cynyddol. Canlyniad anfwriadol i ddechrau oedd bod gweithgaredd y rhwydweithiau i'w gweld gan GIG Cymru gyfan; fodd bynnag, gan fod hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn

gweithgarwch penderfynwyd ailfrandio'r grŵp fel un GIG Cymru gyfan. Mae'r grwpiau'n parhau i fynd o nerth i nerth, gan roi cyfle i staff rannu eu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg

Er gwaethaf cyflwyno modiwl hyfforddi gorfodol ESR yn rhan olaf y flwyddyn, mae Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi bod yn bwnc poblogaidd ar gyfer hyfforddiant gyda cheisiadau yn dod i mewn i dîm y Gymraeg o adrannau eraill ar draws y sefydliad. Roedd aelodau'r tîm hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg fel sgil ar gyfer gyrfaedd gofal iechyd mewn sesiwn yn Ysgol Uwchradd Y Drenewydd.

Codi Ymwybyddiaeth a Digwyddiadau

Mae BIAP yn parhau i ddefnyddio ei sianeli cyfathrebu mewnol i gynnal a hyrwyddo digwyddiadau i annog defnydd y Gymraeg yn ffurfiol ac anffurfiol yn ein gweithle, ac i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg (Safon 102). Dau ddigwyddiad arbennig o boblogaidd yn BIAP (y ddau wedi'u cynnal mewn partneriaeth â sefydliadau eraill GIG Cymru) oedd sgwrs y Fari Lwyd a gynhaliwyd yn ystod mis Rhagfyr ac Eisteddfod gyntaf GIG Cymru, lle roedd staff BIAP yn cystadlu.

GIG CYMRU NHS WALES

SGWRS NADOLIG
CHRISTMAS CHAT

16/12/2022
12:00-13:00

Y Fari Lwyd

Cofrestrwch i gymryd rhan yn ein sesiwn Nadolig! Sgwrs am y Fari Lwyd.

Register to join our Christmas session! A talk about Welsh Christmas traditions and the Mari Lwyd

COFRESTRWCH YMA
REGISTER HERE
[HTTPS://FORMS.OFFICE.COM/E/T9MVDR930U](https://forms.office.com/E/T9MVDR930U)

Eisteddfod GIG 2023

Yn Eisteddfod gyntaf erioed GIG Cymru, gall staff gystadlu mewn nifer o gystadlaethau creadigol gan gynnwys Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn. Gall plant staff y GIG hefyd gystadlu am wobwr yn eu categori eu hunain. Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#).

In the inaugural Eisteddfod for NHS Wales, staff can compete in artistic competitions in a range of categories, including Welsh Learner of the Year. Children of NHS staff can also compete for a prize in their own dedicated category. For further information [please click here](#).

GIG CYMRU NHS WALES

Bob chwarter mae tîm y Gymraeg yn cyhoeddi Cylchlythyr y Gymraeg ar gyfer y bwrdd iechyd, gan hyrwyddo digwyddiadau a chyfleoedd o fewn y bwrdd iechyd a'r GIG yng Nghymru ac yn y gymuned ehangach ym Mhowys. Mae'r cylchlythyr hefyd yn rhoi cyfle i atgoffa staff am safonau penodol drwy ein 'Safon y Mis' newydd, a gynlluniwyd i fod yn nodwedd reolaidd sy'n canolbwyntio ar un o safonau penodol y Gymraeg a'i goblygiadau i staff.



Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg


Mae gwasanaeth cyfieithu mewnol y bwrdd iechyd wedi parhau i fod yn boblogaidd iawn gyda staff yn ei hail flwyddyn, gyda'r galw ar y gwasanaeth bellach wedi sefydlogi yn dilyn amrywiadau yn y flwyddyn gychwynnol 2021-22. Cafodd cyfanswm o 477,7510 o eiriau eu cyfieithu yn fewnol yn ystod 2022-23. Mae dadansoddiadau mewnol wedi dangos arbedion ariannol amlwg o gyflwyno'r gwasanaeth hwn, gyda budd ychwanegol o ganlyniad i ddefnydd meddalwedd Cof Cyfieithu. Fodd bynnag, nid yn ariannol y gwelwyd y prif fuddion:

- Gwell profiad o ran safbwynt staff, gyda mwy o fewnbwn ar y cynnyrch gorffenedig a'r gallu i ymgynghori â'r cyfieithydd mewn amser real.
- Amseroedd gwell wrth ddychwelyd gwaith.
- Gwell cysondeb terminoleg.

Ym mis Rhagfyr 2022, gwnaeth BIAP y penderfyniad anodd i roi'r gorau i sicrhau bod Swydd Ddisgrifiadau ar gael yn Gymraeg fel mater o drefn oherwydd y gofynion anghymesur yr oedd hyn yn eu gosod ar y bwrdd iechyd (mwy na chyfanswm yr holl gyfieithiadau Saesneg i Gymraeg eraill). Er ei fod yn cydnabod y bydd hyn yn golygu nad ydym yn cydymffurfio â Safon 107A(ch), barnwyd bod y penderfyniad hwn yn angenrheidiol er mwyn diogelu gwariant ehangach ar gydymffurfio wrth flaenoriaethu deunyddiau a chyfathrebu sy'n wynebu cleifion.


Lefelau Sgiliau Cymraeg presennol yn BIAP

O'r 31^{ain} Mawrth 2023, nododd 2,535 aelod o staff yn BIAP bod eu gallu i siarad Cymraeg fel a ganlyn:



Sgiliau Cymraeg yn ôl Blwyddyn (Niferoedd)

Nifer yn ôl Blwyddyn



* Mae nifer uchel y cofnodion anhysbys yn 2019-20 mwy na thebyg yn dynodi staff ar gontractau dros-dro yn ystod pandemig Covid-19.

	Anhysbys	Lefel 0	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5	CYFANSWM
2021-22	360	1,136	598	162	66	64	108	2,494
2022-23	317 (-43)	1,140 (+4)	654 (+56)	161 (-1)	79 (+13)	69 (+5)	115 (+7)	2,535 (+41)


Mae'r cynnydd sylweddol dros dro mewn yn yr adran 'anhysbys' yn 2019-20 yn debygol o adlewyrchu staff ar gontractau dros dro yn gysylltiedig â Covid-19

Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cynnydd bach yn lefelau sgiliau Cymraeg cyffredinol y sefydliad, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.


Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r niferoedd uchaf erioed o staff a gofnodwyd ar lefelau 3, 4 a 5. Roedd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y staff a nododd lefel isel o allu (Lefel 1), a gostyngiad yn y rhai heb sgiliau ac nad yw eu sgiliau'n hysbys.

Sgiliau Cymraeg fesul blwyddyn (Canran; heb gofnodion anhysbys)

Canran bob blwyddyn (heb gofnodion anhysbys)



Mae'r cynnydd hwn yn fach a gall fod yn fwy tebygol o gynrychioli newidiadau cymdeithasol graddol (megis cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a mwy o addysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg) na chanlyniad ymyriadau BIAP. Mae hyn yn cael ei ategu wrth groesgyfeirio sgiliau Cymraeg staff ag oedran, sy'n dangos bod staff iau yn llawer mwy tebygol o nodi lefelau sgiliau uwch o gymharu â chydweithwyr hŷn:



Mae hyn yn awgrymu y dylid disgwyl i sgiliau Cymraeg ein gweithlu gynyddu'n araf dros amser; felly, dylem fod yn ofalus cyn priodoli cynnydd bach o flwyddyn i flwyddyn i ymyriadau polisi penodol.

Mae dosbarthiad sgiliau Cymraeg ymhlith staff BIAP yn glytiog, gyda dau safle yn benodol (ysbytai Ystradgynlais a Bro Dyfi (Machynlleth) yn dangos lefelau sylweddol uwch o sgiliau staff na safleoedd eraill. Mae hyn yn unol ag ystadegau poblogaeth lleol ar y Gymraeg.


Rhan 2: Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Yn ogystal â'r enghreifftiau uchod, mae'r canlynol yn nodi manylion y camau y mae BIAP wedi eu cymryd i sicrhau neu wella cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2021-22.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Safonau	Sefyllfa 2022-23	Camau Gweithredu Arfaethedig yn ystod 2023-24
Safonau 1-7 yn ymwneud â gohebiaeth a anfonwyd gan y bwrdd iechyd	<p>Yn unol â'r safonau a'n polisi BIAP mewnol, rydym wedi parhau i sicrhau bod gohebiaeth safonol yn cael ei hanfon allan yn ddwyieithog fel mater o drefn.</p> <p>O ran gohebiaeth ansafonol, mae'r gofyniad i ddelio â hyn yn lleol fesul achos yn cael ei hyrwyddo trwy sesiynau ymsefydlu, cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a chynlluniau gweithredu mewnol adrannau.</p> <p>Mae rhan sylweddol o gyfathrebu'r bwrdd iechyd yn digwydd dros y cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael ei reoli gan y tîm cyfathrebu. Mae gan y tîm siaradwr Cymraeg sy'n gallu sicrhau bod modd ymateb i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir trwy'r cyfrwng hwnnw yn y Gymraeg heb yr angen am gyfieithu.</p>	<p>Parhau i sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei chyfieithu yn ôl yr angen, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r safonau hyn drwy sesiynau ymsefydlu, cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a chynlluniau gweithredu mewnol adrannau.</p>

	<p>Y Gyfeirir Ysbyryst Bronllys Bronllys Pwys L23 0LJ Rhif Ffôn: 01873 712760 Cyfeiriad e-bost: info@pwrts.nhs.uk</p> <p>Y Gyfeirir Bronllys Hospital Bronllys Pwys L23 0LJ</p> <p>Telil ac Enw Cyfeiriad y Claf Llinell Cyfeiriad 2 Llinell Cyfeiriad 3 Llinell Cyfeiriad 4 Cod Post</p> <p>Dyddiad: 12/09/2022 Rhif GIG: 123 456 7890 Rhif Claf: TESTER10 Rhif Cyfeirnod y Ddogfen: 502-74629-1346</p> <p>Telil ac Enw Cyfeiriad y Claf Llinell Cyfeiriad 2 Llinell Cyfeiriad 3 Llinell Cyfeiriad 4 Cod Post</p> <p>Dyddiad: 12/09/2022 Rhif GIG: 123 456 7890 Rhif Claf: TESTER10 Rhif Cyfeirnod y Ddogfen: 502-74629-1346</p> <p>Anwyl Telil ac Enw Rydych chi'n gallu treftu apwyntiad gyda: Cleirlydd: Telil Enw Enw Arbenigedd: Llawfeddygaeth Gyffredinol</p> <p>I drefnu dyddiad ac amser apwyntiad sy'n gyfeus i chi, ffoniwch y Ganolfan Apwyntiadau ar y rhif ffôn uchod cyn gynted â phosibl.</p> <p>Rydym yn cynnig gwasanaeth yn cleifion mewn sawl lleoliad ledled Pwys ac mewn rhai achosion, tu allan i'r sir. Bydd rhai heolau yn apwyntiadau a gwnir i chi yn y lleoliad agosaf at eich cartref. Fodd bynnag, mae'n bosibl fydd rhai achosion lle nad yw'r apwyntiad a gwnir yn y lleoliad agosaf at eich cartref. Gall hyn fod oherwydd eich anghenion dinodi neu fod cyffe i gynnig apwyntiad cynharach mewn safle arall. Trafodir hyn ymledol wrth i chi gadarnhau eich apwyntiad gyda ni.</p> <p>Os ydych chi wedi penderfynu paidio â derbyn y cynnig ar gyfer apwyntiad cynharach, mae'n bosibl i bydd eich amser aros yn ymestyn.</p> <p>Mae ein canolfan apwyntiadau ar agor rhwng 08:30 i 16:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Tu allan i'r amserau hyn gallwch adael neges ar ein pariant sêc neu e-bostwch i cyfeiriad uchod. Cofiwch gynnwys eich rhif ffôn yn ystod y dydd a byddwch yn cynhylltu â chy' ddiwrnod gwaelth nesaf i drefnu apwyntiad sy'n gyfeus i'r ddydd ochr.</p> <p>Mae'n bwysig iawn eich bod yn cynhylltu â ni hyd yn oed os nad oes angen yr apwyntiad hwn arnoch ragor.</p> <p>Y Ganolfan Apwyntiadau</p> <p><small>Bwrdd Iechyd Adalgadau Pwys, Pwys Pwys, Ysbyryst Bronllys, Aberhonddu, Pwys, L23 0LJ Ffôn: 01873 712760</small></p> <p><small>Pwys Teaching Health Board Headquarters, Clabury House Bronllys Hospital, Pwys, L23 0LJ Pwys, L23 0LJ</small></p> <p><small>Rydych chi'n cynnig gwasanaeth Gyntaf Bwrdd Iechyd Adalgadau Pwys yn eiddau Bwrdd Iechyd Lloer Adalgadau Pwys</small></p> <p><small>We welcome correspondence in Welsh Bwrdd Iechyd Adalgadau Pwys yn eiddau Bwrdd Iechyd Lloer Pwys Teaching Health Board</small></p> <p><small>Bwrdd Iechyd Adalgadau Pwys, Pwys Pwys, Ysbyryst Bronllys, Aberhonddu, Pwys, L23 0LJ Ffôn: 01873 712760</small></p> <p><small>Pwys Teaching Health Board Headquarters, Clabury House Bronllys Hospital, Pwys, L23 0LJ Pwys, L23 0LJ</small></p> <p><small>Rydych chi'n cynnig gwasanaeth Gyntaf Bwrdd Iechyd Adalgadau Pwys yn eiddau Bwrdd Iechyd Lloer Adalgadau Pwys</small></p> <p><small>We welcome correspondence in Welsh Bwrdd Iechyd Adalgadau Pwys yn eiddau Bwrdd Iechyd Lloer Pwys Teaching Health Board</small></p>	
<p>Safonau 8 – 20 yn ymwneud â galwadau ffôn a wnaed ac a dderbyniwyd gan y bwrdd iechyd</p>	<p>Rhai llythyrau safonol newydd a ddrafftwyd yn Gymraeg yn ystod 2022-23.</p> <p>Sefydlwyd gwasanaethau ffôn newydd yn ystod 2022-23, er enghraifft 111 #2 ('111 pwyso 2', y gwasanaeth ffôn newydd ar gyfer cleifion sydd angen cymorth iechyd meddwl), mae'r rhain wedi'u cynllunio o'r dechrau i ymgorffori gofynion holl safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud â'r ffôn. Mae lefelau uchel o gydymffurfio yn cael eu sicrhau ar y llinellau hyn oherwydd y defnydd o wasanaethau negeseuon awtomataidd.</p>	<p>Bydd y gwaith ar y safonau hyn yn ystod 2023-24 yn canolbwyntio ar yr angen i roi sicrwydd cydymffurfio ar linellau ffôn switsfwrdd ysbytai. Mae opsiynau ar gyfer defnyddio negeseuon ffôn awtomataidd i fodloni gofynion y safonau, gan gynnwys cyfeirio galwadau sy'n dod i mewn at rywun sy'n siarad Cymraeg lle bo angen, yn cael eu harchwilio i'w gweithredu posibl.</p>




Mae'n anoddach rhoi sicrwydd o gydymffurfiaeth ar linellau ffôn hŷn, fodd bynnag, oherwydd bod y dulliau cyswllt yn cael eu datganoli, gyda phob ysbyty'n cysylltu ar wahân; a natur gymunedol safleoedd bach BIAP, lle gall y switsfwrdd gael ei staffio gan un unigolyn yn unig.

Mae adnoddau sy'n rhoi arweiniad ar ateb y ffôn wedi cael eu dosbarthu ar draws y bwrdd iechyd:

	<p>Welsh Language Standards Quick Guide Phone calls</p>  <p>Remember: a phone call is one of the first ways in which we interact with our partners, clients, the public etc. Therefore it is of paramount importance that we ensure that those that contact us are aware that we welcome communications in Welsh, and that we will not treat Welsh less favourably than English</p> <p>Please see the Quick Guide for Pronunciation and Phrases for any help with pronouncing Welsh words and what to say on the phone</p> <p>This guidance applies to phone calls to main telephone numbers, helpline numbers or call centre numbers</p> <p>When a person contacts you, you must:</p> <ul style="list-style-type: none"> greet the person in Welsh inform the person that a Welsh language service is available deal with the call in Welsh if that is the person's wish and such point as: <ul style="list-style-type: none"> it is necessary to transfer the call to a member of staff who does not speak Welsh who can provide a service on a specific subject available no Welsh speaking member of staff is available to provide a service on that specific subject available When you advertise telephone numbers, helpline numbers or call centre services, you must not treat the Welsh language less favourably than the English language if you offer a Welsh language service on your main phone number(s), on any helpline/call centre numbers, the phone number for the Welsh language service must be the same as for the corresponding English language available When you publish your main phone number, or any helpline/call centre service numbers, you must state in Welsh that you welcome calls in Welsh if you have performance indicators for dealing with phone calls, you must ensure that those performance indicators do not treat phone calls made in Welsh any less favourably than calls made in English Your main phone call answering service(s) must inform those calling, in Welsh, that they can leave a message in Welsh <p><small>This guidance relates to Standards 9, 10, 11, 22, 23, 24, 25 and 26</small></p> 	
<p>Safonau 20-22CH yn ymwneud â chyfarfodydd nad dydynt ar agor i'r cyhoedd</p>	<p>Mae'r gofyniad hwn yn cael ei hyrwyddo'n barhaus ac mae timau unigol wedi gweithredu prosesau yn unol â'u gofynion unigol; er enghraifft, mae'r tîm Gofal Sylfaenol wedi gofyn i bob practis nodi eu dewis iaith ar gyfer cyfarfodydd (a gohebiaeth); bydd hyn yn cael ei adolygu bob blwyddyn.</p>	<p>Parhau i fonitro lefelau cydymffurfio ac adborth.</p>

	<p>Mae'r ddogfen Adnoddau ac Arweiniad i Reolwyr yn cynnwys gwybodaeth am gynnal cyfarfodydd gydag aelodau'r cyhoedd. Lle nad yw'r staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i fynychu cyfarfodydd, mae gan staff y gallu i gyrchu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd, ac mae manylion y gwasanaethau cyfieithu ar y pryd sydd wedi'u cymeradwyo ar gael i staff ar y fewnrwyd ac wedi'i hyrwyddo i staff.</p> <p>Mae'r diweddariad i Microsoft Teams sy'n caniatáu'r defnydd o gyfieithu ar y pryd ar-lein wedi gwella gallu'r bwrdd iechyd i gydymffurfio â hyn mewn cyfarfodydd ar-lein. Cafodd y swyddogaeth newydd hon ei hyrwyddo i'r bwrdd iechyd yn ystod sesiwn friffio staff lle'r oedd Cadeirydd y bwrdd iechyd, siaradwr Cymraeg, yn cyflwyno rhan o'r sesiwn yn Gymraeg.</p> <p>Mae cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg wedi bod ar gael mewn rhai digwyddiadau staff lle nodwyd y gofyn; mae digwyddiadau eraill e.e. Seremoni Wobrwyo Eisteddfod y GIG a gynhaliwyd yn ddwyieithog drwy ddull cyfnewid iaith, heb ddefnyddio cyfieithu ar y pryd.</p>	
<p>Safonau 23-25 yn ymwneud â chleifion mewnol a chynadleddau achos</p>	<p>Gellir cofnodi dewis iaith cleifion mewnol drwy sawl sianel ar draws BIAP. Mae gan ein systemau electronig WPAS a WCCIS y gallu i gofnodi dewis iaith cleifion. Mae llawer o'n ffurflenni atgyfeirio hefyd yn gofyn i gleifion am eu dewis iaith.</p>	<p>Bydd datblygu cynllun pum mlynedd newydd dan Safon 110 (gweler isod) yn ystod 2023-24 yn gwella gallu'r bwrdd iechyd i fodloni gofynion y safonau hyn yn ymarferol.</p>
<p>Safonau 26-32 yn ymwneud â chyfarfodydd a digwyddiadau sydd ar agor i'r cyhoedd</p>	<p>Mae'r gofyniad i ofyn i'r cyhoedd a hoffent ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cyfarfodydd wedi'i amlinellu mewn dogfennau canllawiau ar gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau.</p> <p>Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig hwn yn brin, e.e. gofynnwyd i fynychwyr Cynhadledd Dementia Powys ymlaen llaw a oeddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y gynhadledd ac ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau.</p>	<p>Parhau i fonitro lefelau cydymffurfio ac adborth.</p>

	<p>Gwahoddwyd cyfranogwyr CCB y bwrdd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cwestiynau ac yn y wybodaeth a gyflwynwyd.</p> <p>Mae canllawiau gweithdrefnol 'Y Gymraeg – Cyfathrebu a Marchnata' sy'n cynnwys gwybodaeth am sut i gydymffurfio â'r Safonau wrth drefnu cyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd yn parhau i gael eu cynnig i reolwyr a staff o fewn eu timau.</p>	
<p>Safonau 33-38 yn ymwneud â chyhoeddusrwydd a hysbysebu, arddangos deunydd yn gyhoeddus, cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau a ffurflenni.</p> <p>(Safonau 47-49 yn ymwneud ag arwyddion, hefyd Safonau 111 yn ymwneud ag arwyddion)</p>	<p>Wedi i gyfyngiadau'r pandemig llacio, cynhaliwyd archwiliadau o'r 9 prif safle, gan asesu cydymffurfiaeth ag ystod o safonau gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag arwyddion, arddangosfeydd gwybodaeth a dogfennau neu daflenni. Fel rhan o'r archwiliad dan arweiniad Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, ymwelwyd â rhai safleoedd yn annibynnol hefyd, gyda chylch gwaith i edrych ar arwyddion yn unig.</p> <p>Mae arwyddion sefydlog wedi bod yn ddwyieithog fel mater o drefn wrth gwrs, ymhell cyn cyflwyno Safonau'r Gymraeg, ac ni chafwyd hyd i unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio o ran arwyddion sefydlog. Mae'r cyfleusterau newydd ym Mro Dyfi (Machynlleth) wedi'u cynllunio o'r dechrau i fod yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau, gyda'r Gymraeg yn hynod amlwg drwy gydol y datblygiad.</p> 	<p>Mae materion o ddiffyg cydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud ag arddangosfeydd gwybodaeth ac arwyddion eisoes wedi cael eu huwchgwyfeirio at dimau Gwasanaeth Cleifion lleol ac i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cleifion.</p> <p>Bydd Hyfforddiant Iaith Gymraeg i Reolwyr yn cwmpasu cyfrifoldebau yn y maes hwn, ymhlith y dyletswyddau eraill.</p> <p>Cynhaliwyd ymweliadau â safleoedd eto yn ystod 2023-24 i weld a yw'r cydymffurfiaeth wedi gwella.</p>

Mae cynhyrchu dogfennau yn y Gymraeg wedi bod yn arfer safonol ers peth amser, ac er y canfuwyd enghreifftiau achlysurol o daflenni ar gael yn Saesneg yn unig, roedd y rhain ar y cyfan yn hen daflenni a oedd yn rhag-ddyddio'r safonau. Anfonwyd y rhain i'w cyfieithu neu eu dileu, fel y bo'n briodol.



Fodd bynnag, datgelodd yr archwiliadau lai o gysondeb o ran arwyddion dros dro ac arddangosfeydd gwybodaeth. Roedd rhai arwyddion a phosteri ym mhob safle yn cydymffurfio, fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o safleoedd yn cynnwys rhai enghreifftiau o arwyddion, neu arddangosfeydd gwybodaeth, yn Saesneg yn unig. Tynnwyd sylw at y rhain i dimau lleol gyda'r cyfarwyddyd i'w tynnu i lawr neu eu diweddarau yn ôl yr angen.

	<p>Dylid nodi bod cyfran sylweddol o'r posteri gwybodaeth sy'n cael eu harddangos mewn safleoedd BIAP o ffynonellau nad oes ganddynt safonau'r Gymraeg ac sy'n darparu gwybodaeth yn Saesneg yn unig; er enghraifft, elusennau yn y DU fel The Alzheimer's Society, neu grwpiau gwirfoddol neu elusennol lleol bach. Yn unol â chanllawiau gan Gomisiynydd y Gymraeg, nid yw arddangos y wybodaeth hon yn mynd yn groes i'r safonau, gan nad oedd BIAP (neu sefydliad arall sydd wedi derbyn Hysbysiad Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg) wedi cynhyrchu'r wybodaeth yn y lle cyntaf.</p>	
<p>Safonau 39-46 sy'n ymwneud â gwefan, apiau a chyfryngau cymdeithasol y bwrdd iechyd</p>	<p>Mae gwefan BIAP ar gael yn gyfan gwbl yn Gymraeg ac yn cael ei rheoli gan y tîm cyfathrebu, sy'n sicrhau nad oes unrhyw dudalennau'n cael eu huwchlwytho oni bai eu bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.</p>	<p>Tîm Cyfathrebu i barhau i weithredu fel ceidwaid ar gyfer y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau arfer gorau.</p>

Statws gwasanaeth gan gynnwys Gweithredu Diwydiannol




Croeso i wefan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys




Cyfleoedd gwyh i Hyfforddi, Gweithio, Byw ym Mhowys

Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol ar gael yn Gymraeg. Yn gyffredinol, nid oes gan adrannau unigol bresenoldeb cyfryngau cymdeithasol ar wahân, fodd bynnag, lle mae hyn yn wir (e.e. gwasanaeth Byw'n Dda Powys), mae cyfrifon naill ai'n ddwyieithog neu gyfrifon Cymraeg ar wahân yn eu lle.

	<div data-bbox="577 204 974 268">  <p>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys / Powys Teaching Health Board 3 d · 🌐</p> </div> <div data-bbox="577 284 974 598"> <p>15-21 May 2023 is Mental Health Awareness Week. Focusing on anxiety for this year's Mental Health Awareness will increase people's awareness and understanding of anxiety. Mental Awareness Week is an ideal time for us all to think about our mental health, and tackle the stigma by creating a society that prevents mental health problems from developing and that protects our mental wellbeing. Mental Health Foundation To find out more visit https://www.mentalhealth.org.uk/mhaw</p> </div> <div data-bbox="577 614 974 837"> <p>15-21 Mai 2023 yn Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl. Bydd canolbwyntio ar orbyrder ar gyfer Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl eleni yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl o orbyrder. Mae Wythnos Ymwybyddiaeth Meddwl yn amser delfrydol i ni gyd feddwl am ein hiechyd meddwl, a mynd i'r afael â'r stigma drwy greu cymdeithas sy'n atal problemau iechyd meddwl rhag datblygu ac sy'n amddiffyn ein lles meddyliol.</p> </div> <div data-bbox="577 845 974 893"> <p>I gael gwybod mwy ewch i https://www.mentalhealth.org.uk/mhaw</p> </div> <div data-bbox="1003 204 1467 268">  <p>Powys Living Well Service @PowysLivingWell</p> </div> <div data-bbox="1003 284 1467 343"> <p>Mae adborth yn bwysig i ni gan ein bod yn ei ddefnyddio i ysgogi gwelliannau i wasanaethau.</p> </div> <div data-bbox="1003 359 1467 438"> <p>Os ydych wedi bod mewn cyswllt â'r Gwasanaeth Bwy'n Iach Powys, yna hoffem glywed eich syniadau!</p> </div> <div data-bbox="1003 454 1467 510"> <p>#DyddGwenerAdborth #BywnDdaBIAP Translate Tweet</p> </div> <div data-bbox="1003 518 1467 782">  </div>	
<p>Safonau 47-49 yn ymwneud ag arwyddion</p>	<p><i>Gweler safonau 33-38 uchod.</i></p>	<p><i>Gweler safonau 33-38 uchod.</i></p>
<p>Safonau 50-53 yn ymwneud â derbyn ymwelwyr</p>	<p>Yn ystod yr ymweliadau safle a gynhaliwyd yn 2022-23, darparwyd arwydd ar gyfer pob derbynfa (lle nad oedd arwydd yn bresennol eisoes), yn gwahodd ymwelwyr i ddefnyddio'r Gymraeg (Safon 52); dosbarthwyd bathodynau/cortynnau hefyd i staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg, yn ôl yr angen (Safon 53).</p> <p>Mae darparu gwasanaeth llawn wyneb yn wyneb yn Gymraeg ym mhob derbynfa, bob amser, yn parhau i fod yn uchelgais yn hytrach nag arfer, oherwydd yr anhawster wrth recriwtio staff derbynfa yn</p>	<p>Datblygu canllawiau a gweithdrefn i ganiatáu gwasanaethau derbynfa dros y ffôn yn Gymraeg yn bosibl mewn derbynfeydd BIAP.</p>

	gyffredinol (boed gyda sgiliau Cymraeg ai peidio). Ar ôl derbyn canllawiau drafft y cod ymarfer gan Gomisiynydd y Gymraeg, dylai fod yn ymarferol i BIAP gynnig gwasanaeth derbynfa dros y ffôn, a bydd BIAP yn datblygu'r capasiti hwn yn 2023-24.	
Safonau 54-59 yn ymwneud â grantiau, tendrau a chaffael	Mae BIAP yn parhau i gydymffurfio â'r safonau hyn yn unol â chaffael ac ymarfer safonol GIG Cymru.	
Safonau 60-62 yn ymwneud â delwedd gorfforaethol y sefydliad	Mae hunaniaeth gorfforaethol BIAP yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg yn ein logo. Mae BIAP yn hyrwyddo'r gwasanaethau hynny y gallwn eu cynnig yn Gymraeg e.e. system SilverCloud (gweler uchod).	
Safon 63 yn ymwneud â chysiau addysg a gynigir gan y bwrdd iechyd	Codwyd y gofyniad hwn gyda'r timau hynny sy'n cynnig cyrsiau addysg (yn bennaf Gwasanaethau Menywod a Phlant) yn unol â'r hysbysiad cyfarwyddyd sy'n ymwneud â'r safon; byddant yn arolygu eu cleifion i asesu'r angen i ddarparu cyrsiau yn y Gymraeg yn unol â'r canllawiau.	Sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn briodol yn ystod 2023-24 a bod camau dilynol yn eu lle, yn ôl yr angen.
Safon 64 yn ymwneud â systemau annerch y cyhoedd	Fel y mae ar y 31 ^{ain} Mawrth 2023 nid oes systemau annerch y cyhoedd ar waith o fewn BIAP.	<i>Amherthnasol</i>
Safonau 65-68 yn ymwneud â gofal sylfaenol	Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod gwefan BIAP yn adlewyrchu gofynion Safon 65, gyda darparwyr gofal sylfaenol ar draws y sir wedi cael eu harolygu ynghylch y gwasanaethau Cymraeg y gallant eu darparu. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu i'w chyhoeddi ar wefan BIAP yn ystod 2023-24. Mae gwasanaeth cyfieithu mewnol BIAP y parhau i gael ei gynnig i ddarparwyr gofal sylfaenol yn ôl Safon 66 ynghyd â chyfle i archebu bathodynau / cortynnau gwddf gyda logo 'Iaith Gwaith' yn rhad ac am ddim.	Sicrhau bod rhan berthnasol o wefan BIAP yn adlewyrchu gofynion Safon 65 a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

Safonau Llunio Polisi

<p>Safonau 69 – 78A yn ymwneud â phenderfyniadau llunio polisi</p>	<p>Rydym yn parhau i asesu penderfyniadau polisi ar gyfer eu heffaith ar y Gymraeg fel rhan o broses Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ehangach y Bwrdd Iechyd (o hyn allan yn AEC).</p> <p>Yn ystod 2021-22, 2, cyflwynwyd 2 sesiwn hyfforddi ychwanegol ar gynnal AEC. Mae'r sesiwn hyfforddi a'r templed corfforaethol yn ymdrin â'r gofynion dan Safonau'r Gymraeg. Oherwydd bod y swyddogaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg o fewn BIAP yn dod dan yr un staff, atgyfnerthir y gofyniad i asesu polisiau a datblygiadau ar gyfer eu heffaith ar y Gymraeg fel rhan o'r broses ehangach hon. Caiff holl sesiynau hyfforddi EIA eu darparu gan unigolyn/unigolion gyda phrofiad o Gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.</p> <div data-bbox="616 794 1400 842">  http://pthb.nhs.wales </div> <h3 data-bbox="674 858 1234 900">What do I need to consider? (5/6)</h3> <p data-bbox="658 916 842 938">Welsh Language</p> <p data-bbox="658 943 1285 987">The Policy or Project must should not have negative effects and ideally will have positive effects on</p> <ol data-bbox="658 1011 1256 1059" style="list-style-type: none"> 1) Opportunities to use the Welsh Language 2) Treating the Welsh Language less favourably than English <p data-bbox="658 1083 831 1106"><i>Questions to ask:</i></p> <ul data-bbox="658 1107 1223 1203" style="list-style-type: none"> What provision have you made for Welsh? Will Welsh versions be distributed with English materials? Will it be easier for people to receive services in Welsh? If the service is new, how will you offer it in Welsh? <div data-bbox="521 1262 1442 1305" style="background-color: #1a3d54; color: white; padding: 2px;"> 11 Equality Impact Assessment Training </div>	<p>Parhau i fonitro Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer tystiolaeth bod y safon hon wedi ei chyrraedd.</p>
--	--	---

	Mae rhagor o wybodaeth am broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb y bwrdd iechyd ar gael yn Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb BIAP 2022-23.	
--	---	--


Safonau Gweithredu

Safon 79 yn ymwneud â pholisi ar ddefnydd mewnol y Gymraeg	Roedd BIAP wedi bodloni'r safon hon yn y gorffennol trwy ei becyn Gwybodaeth Rheolwyr, gwnaed yn orfodol gan yr archwiliad dan arweiniad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ein bod yn mabwysiadu polisi bwrdd iechyd ffurfiol. O fis Mawrth 2023 roedd y polisi hwn, dan y teitl Polisi Cymraeg yn y Gweithle, wedi'i ddrafftio ac roedd yn aros am gymeradwyaeth ffurfiol trwy brosesau BIAP mewnol.	Sicrhau bod y Polisi Cymraeg yn y Gweithle yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi.
Safonau 80 – 81 yn ymwneud â dogfennau cyflogaeth	Mae contractau (Safon 80) wedi'u safoni a'u darparu'n ddwyieithog yn awtomatig drwy'r system TRAC. Mae dogfennau cyflogaeth eraill ar gael yn Gymraeg ar fewnrwyd y Bwrdd Iechyd.	
Safon 82 - yn ymwneud â pholisïau gweithredol	Mae proses wedi'i sefydlu i sicrhau bod polisïau sy'n berthnasol i'r safon hon ar gael yn Gymraeg, a lle gwneir newidiadau, y mae'r rhain hefyd yn cael eu nodi. Cyhoeddwyd rhai o'r polisïau dan sylw Safon 82 yn ddwyieithog gan eu bod yn bolisïau Cymru Gyfan. Oherwydd cyfyngiadau capasiti o fewn y tîm cyfieithu Cymraeg a'r angen i flaenoriaethu gwybodaeth sy'n wynebu cleifion, mae'r polisïau hyn yn cael eu cyfieithu pan gânt eu hadolygu ar wahân; disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau dros y flwyddyn ariannol nesaf.	Parhau i weithio i sicrhau bod yr holl bolisïau dan y safon hon ar gael yn Gymraeg erbyn diwedd 2023-24.

<p>Safonau 83-88 – yn ymwneud â disgyblu, anghydfod a phrosesau mewnol eraill.</p>	<p>Mae'r holl ofynion hyn yn parhau i gael eu bodloni drwy'r polisiau perthnasol presennol ar gyfer Cymru gyfan a BIAP.</p>	<p>Parhau i sicrhau bod yr holl bolisiau yn adlewyrchu'r gofynion hyn.</p>
<p>Safon 89 yn ymwneud â rhyngwynebau meddalwedd cyfrifiadurol dwyieithog</p>	<p>Mae Cysgliad a rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer Windows, Office ac ESR yn parhau i fod ar gael i staff. Mae manylion am gael mynediad i'r rhain ar gael ar fewnrwyd staff y bwrdd iechyd.</p>	<p>Parhau i hyrwyddo'r rhain drwy sesiynau ymsefydlu a sesiynau hyfforddi/ymwybyddiaeth staff.</p>

Safonau 90 – 95 yn ymwneud â'r fewnrwyd

Disodlwyd y fewnrwyd staff blaenorol yn ystod 2022-23 gyda mewnrwyd newydd gan ddefnyddio meddalwedd Microsoft Sharepoint, sydd wedi'i chynllunio o'r dechrau i gydymffurfio'n llwyr â'r Safonau sy'n gysylltiedig â'r fewnrwyd (i'r graddau y mae'r meddalwedd yn caniatáu). Gellir cyrchu'r fersiynau Cymraeg o dudalennau mewnrwyd (lle maen nhw'n bodoli) drwy glicio 'Cymraeg' ar y tab ieithoedd:



Therapies and Health Science - Professional Standards Home Edit

ais A Immersive Reader Analytics Published Site Actions Not following Share Languages English Welsh

Y Gymraeg / The Welsh Language

Y Gymraeg ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys


Croeso i dudalen y Gymraeg. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gorff diwyethog ac fe siaredir y Gymraeg ledled cymunedau Powys. Gobeithwn y bydd y tudalennau hyn o gymorth i chi wrth i chi ddefnyddio eich Cymraeg yn y gwaith.

Ar y tudalennau hyn mae gwybodaeth am:

- Sut gallwch helpu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i gleifion.
- Sut a ble gallwch ddysgu mwy am y Gymraeg a chyfluoedd hyfforddiant.
- Beth yw gofynion statudol y bwrdd iechyd a sut gallwn ni oll sicrhau ein bod yn cydymffurfio.
- Sut i drefnu cyfieithiad.
- Sut all tim y Gymraeg eich helpu chi.
- Pa gyfluoedd hyfforddi a rhydwethio sydd ar gael i godi hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.


I gysylltu gyda'r tim am wybodaeth bellach am ddefnyddio'r Gymraeg ym MIAF, cysylltwch gyda ni ar: powys.equalityandwelsh@wales.nhs.uk

Mae'r dudalen hon hefyd ar gael yn Saesneg drwy newid yr iaith ar frig y dudalen.




Cyrsiau magu hyder

Gwybodaeth am gyrsiau i wella eich Cymraeg



Y Cynnig Rhagwethiol

Gwybodaeth am roi'r cynnig rhagwethiol



Cyfieithu (i ac o'r) Gymraeg

Manylion y gwasanaeth cyfieithu


Parhau i fonitro'r fewnrwyd i sicrhau bod cydymffurfiaeth yn parhau wrth i'r fewnrwyd ddatblygu.

Yn ogystal â'r tudalennau sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith (gweler uchod), mae hafan y fewnrwyd ar gael yn Gymraeg fel y mae tudalennau sy'n ymwneud ag Datblygu Sefydliadol ac Addysg Glinigol (Hyfforddiant) a phob safle arall fel y nodir gan y Safon 81.

<p>Safonau 96 – 101 yn ymwneud â sgiliau a hyfforddiant Cymraeg staff</p>	<p>Gweler yr adran uchod am gyfrifoldebau adrodd sgiliau staff.</p> <p>Mae BIAP wedi parhau i hyrwyddo a, lle bo'n briodol, cefnogi dysgu Cymraeg yn ariannol yn unol â'r safonau; mae'r cyrsiau hyn wedi bod yn fwyfwy poblogaidd eleni, gyda 32 datganiad o ddiddordeb (+11 o'i gymharu â 2021-22) a 21 yn gwneud rhyw fath o hyfforddiant (+9).</p>  <p>Mae grŵp Yammer GIG Cymru Dysgu Cymraeg, grŵp BIAP yn unig yn wreiddiol ond ers agor i staff ar draws GIG Cymru, mae'n cynnig rhwydwaith cefnogol ar gyfer staff sy'n dysgu Cymraeg yn ogystal â chyfle i rannu awgrymiadau a gofyn cwestiynau.</p>	<p>Parhau i hyrwyddo opsiynau hyfforddi presennol a newydd i staff ar draws BIAP.</p>
<p>Safonau 102-103 yn ymwneud â hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg</p>	<p>Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg wyneb yn wyneb yn parhau i gael ei gynnig o fewn y bwrdd iechyd a gofal sylfaenol, gyda phum adran yn manteisio ar y cyfle hwn yn ystod 2022-23:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd • Gwasanaeth Byw'n Dda Powys 	<p>Parhau i fonitro ac annog cwblhau'r modiwl hyfforddi gorfodol.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Y Tîm Asesu'r Cof • Ystadau • Rheolwyr Meddygfeydd <p>Yn ogystal, cyflwynwyd y modiwl newydd ar-lein Mwy na Geiriau: Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ym mis Rhagfyr 2022. Ym mis Mawrth 2023, roedd cyfanswm o 73% o holl staff BIAP wedi ymgymryd â'r modiwl hyfforddi gorfodol hwn. Mae'r ffigur hwn yn galonogol iawn o ystyried bod yr hyfforddiant wedi bod ar gael am gyfnod byr yn unig (Gweler hefyd Diweddariad Mwy na Geiriau). Rheolir cydymffurfiaeth â'r modiwl hyfforddi hwn fel rhan o Hyfforddiant Statudol / Gorfodol ehangach y bwrdd iechyd, gan helpu normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithrediadau'r bwrdd iechyd.</p> <p>Bydd tîm y Gymraeg yn parhau i gynnig sesiynau hyfforddi yn y Gymraeg wyneb yn wyneb oherwydd y dyfnder mwy a gynnigir gan y math hwn o hyfforddiant.</p> <p>Er nad oedd cyrsiau hyfforddi ffurfiol fel y cyfryw, roedd digwyddiadau fel sgwrs Mari Lwyd ac Eisteddfod GIG Cymru yn rhoi cyfleoedd pellach i staff ddysgu am hanes a diwylliant Cymru.</p>	
Safonau 104-105 yn ymwneud â nodi staff sy'n siarad Cymraeg	<p>Mae bathodynau a chortynnau i adnabod staff Cymraeg a dysgwyr Cymraeg ar gael i'r holl staff. Mae hyn yn galluogi cleifion i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg yn rhwydd ac yn cynyddu eu hyder yng ngallu'r bwrdd iechyd i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.</p> <p>Mae templedi llofnodion e-bost dwyieithog ar gael ar dudalen fewnrwyd adnoddau Cymraeg a hefyd yn y ddogfen Canllawiau ac Adnoddau i Reolwyr.</p>	
Safonau 106 yn ymwneud â recriwtio	Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i sicrhau bod yr holl swyddi gwag yn nodi'r gofyniad iaith Gymraeg, ac yn cael eu hysbysebu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg yn unol â Safonau 106 a 106A; fel mater o	Datblygu cynllun newydd dan Safon 110 / Mwy na Geiriau i wella sgiliau Cymraeg staff.

	<p>drefn, gwahoddir ymgeiswyr i wneud cais yn Gymraeg i bob swydd wag.</p> <p>Mae 107A a-c i gyd yn cael eu darparu yn Gymraeg fel mater o drefn. Yn flaenorol, roedd pob swydd ddisgrifiad (Safon 107A (ch)) hefyd yn cael eu darparu yn Gymraeg fel mater o drefn. Fodd bynnag, penderfynodd y bwrdd iechyd ym mis Tachwedd 2022 i roi'r gorau i hwn; gwnaed y penderfyniad hwn oherwydd y gost anghymesur o'u cyfieithu (dros 50% o'r holl wariant ar gyfieithu Cymraeg) yn y cyd-destun ariannol anodd.</p> <p>Yn ystod 2022-2023 hysbysebodd BIAP 1,264 o swyddi gwag:</p> <p>Cafodd 3 swydd eu hysbysebu gyda lefel sgiliau Cymraeg yn hanfodol.</p> <p>Cafodd 1,261 swydd eu hysbysebu gyda lefel sgiliau Cymraeg yn ddymunol.</p> <p>Cafodd 0 o swyddi eu hysbysebu lle nad oedd angen unrhyw sgiliau Cymraeg.</p> <p>Roedd y rolau a hysbysebwyd gyda sgiliau Cymraeg yn cynnwys Swyddog Iaith a Chydraddoldeb a Chydlynedd CBT Cymraeg ar gyfer Gwasanaeth SilverCloud.</p> <p>Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg blaenorol, ailedrychwyd ar y broses recriwtio yn ystod 2021-22 a chyflwynwyd Polisi a phroses Recriwtio newydd yn 2022. Roedd y broses hon yn cynnwys teclyn rhyngweithiol i ddisodli'r siart llif flaenorol i nodi a ddylai Sgiliau Iaith Gymraeg fod yn hanfodol, yn ddymunol neu ddim yn ofynnol.</p>	<p>Datblygu hyfforddiant Cymraeg i Reolwyr er mwyn gwella cydymffurfiaeth y broses recriwtio.</p>
--	---	---

	 <p>Dan yr amgylchiadau hyn, mae'r diffyg cynnydd yn nifer y swyddi sy'n cael eu hysbysebu gyda sgiliau Cymraeg hanfodol yn y ffigurau hyn yn syndod, gan awgrymu naill ai nad yw'r staff yn cydymffurfio â phrosesau BIAP neu nad yw'r prosesau hynny'n ddigon llym i arwain newid. Bydd y rhain yn destun sylw yn 2023-24 drwy gynllun newydd dan Safon 110 (gweler isod) a hyfforddiant Cymraeg i Reolwyr wedi'i gynllunio.</p>	
Safonau 110-110A sy'n ymwneud â chynllun ar gyfer ymgynghoriadau clinigol dwyieithog	Cyhoeddwyd y cynllun a gwefan y bwrdd iechyd a gellir ei gyrchu yma ; caiff ei ddiweddarau'n flynyddol. Gan y bydd diwedd y cyfnod pum mlynedd gychwynnol yn digwydd yn ystod 2023-24, bydd cynllun newydd dan Safon 110 yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.	Datblygu cynllun pum mlynedd newydd dan Safon 110.
Safonau 111 – 113 yn ymwneud ag arwyddion	(Gweler safonau 33-38 uchod).	(Gweler safonau 33-38 uchod).

Safon 114 - yn ymwneud â negeseuon gweithle wedi'u recordio.	Nid yw'r safon hon yn berthnasol i BIAP gan nad oes systemau cyhoeddiadau wedi'u recordio yn y gweithle ar ein safleoedd.	Amherthnasol
--	---	--------------

Cadw Cofnodion a Safonau Atodol

Safon 115 - yn ymwneud â chwynion.	<p>Yn ystod 2022-2023 ni dderbyniodd BIAP unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Gymraeg.</p> <p>Mae BIAP yn parhau i ddilyn yr amodau a nodir yn y polisi 'Gweithio i Wella' GIG Cymru, sy'n cynnwys gwybodaeth am ddelio â chwynion a wnaed yn Gymraeg ac ynglŷn â darpariaeth Gymraeg. Gallwch weld copïau o'r dogfennau hyn yma.</p> <p>Ddiwedd mis Mawrth 2023, agorodd Comisiynydd y Gymraeg Ymchwiliad i'r bwrdd iechyd yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â Safonau 8, 9 a 10 ar rai rhifau switsfwrdd ysbytai. Oherwydd amseriad yr ymchwiliad hwn mae'r effeithiau y tu hwnt i gwmpas y ddogfen gyfredol hon.</p>	Amherthnasol
Safonau 116-121 sy'n ymwneud â chadw cofnodion a materion atodol.	<p>Ar gyfer Safon 116, gweler 'Iefelau Sgiliau Cymraeg cyfredol yn BIAP' uchod.</p> <p>Ar gyfer Safon 117, gweler Safon 106.</p>	Amherthnasol

Fframwaith Mwy na Geiriau

Mae Fframwaith Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru ar wahân i Safonau'r Gymraeg; fodd bynnag, er lles symleiddio ac atal dyblygu gwaith adrodd, mae'r diweddariad canlynol yn adlewyrchu cynnydd BIAP dan Gynllun Gweithredu Mwy na Geiriau.

Cyflawni'r camau gweithredu Cymraeg fel y diffinnir yng Nghynllun Gweithredu Mwy na Geiriau: Ar gyfer y cyfnod Awst 2022-Ebrill 2023

Blwyddyn: 2022-23

Sefydliad GIG	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
----------------------	-----------------------------------

Cwblhawyd erbyn:	Rheolwr Gwella Gwasanaethau'r Gymraeg a Chydraddoldeb	Dyddiad: 31-Mawrth-2023
-------------------------	--	--------------------------------

Cyfeiriad	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Materion i'w hystyried wrth ddarparu'r diweddariad	Diweddariad	Heriau / rhwystrau wrth weithredu ac unrhyw sylwadau eraill
				Pe bai unrhyw rwystrau wrth weithredu'r cam gweithredu, rhaid eu nodi yma ac amlinellu sut y byddwch yn eu datrys.

1.	<p>Byddwn yn gosod amcanion perfformiad personol i sicrhau bod cynllun Mwy na Geiriau yn cael ei roi ar waith fel bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ymwreiddio yn amcanion blynyddol arweinwyr y sector, ei raeadru drwy sefydliadau, a'i ystyried mewn arfarniadau unigol perthnasol ar bob lefel. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Fframwaith Adroddiad Blynyddol y Cynghorau) a Chadeiryddion byrddau'r GIG.</p>	<p>Dyma'r amcanion perfformiad personol a osodwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Dangos sut maent wedi rhoi'r arweiniad i'r Bwrdd ddatblygu a hyrwyddo diwylliant sefydliadol o berthyn sy'n cefnogi dwyieithrwydd a sicrhau bod y Gymraeg ar flaen y cof wrth greu cynlluniau a darparu gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn hyderus ar ei gynnydd ar y camau gweithredu tymor byr a nodir yn y Fframwaith Mwy na Geiriau ar gyfer cyrff iechyd. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - Gwell data ar sgiliau iaith y gweithlu (dros 90% o staff wedi cofnodi eu sgiliau) i gefnogi gwaith cynllunio gwasanaethau i alluogi'r cynnig gweithredol. 	<p>Mae Cadeirydd BIAP yn siaradwr Cymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg fel mater o drefn mewn cyfarfodydd bwrdd. Mae'r holl wybodaeth a gyflwynir mewn cyfarfodydd bwrdd yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p> <p>Mae Pencampwr y Gymraeg wedi ei benodi ar gyfer y Bwrdd.</p> <p>Fel yr oedd ar y 31^{ain} Mawrth 2023, roedd 87.48% o staff BIAP wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg, ychydig yn llai na chyfanswm nifer y bobl.</p> <p>Roedd 73% o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ar-lein ar 31^{ain} Mawrth; mae hyn yn uchel iawn o ystyried mai dim ond ers mis Tachwedd y bu ar gael ac yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>Dylid nodi y gallai fod yn anodd cyflawni dros 90% ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg oherwydd trosiant staff; mae ffigwr o 80-90% o gydymffurfiaeth yn gyffredin ar gyfer cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol GIG Cymru.</p>
----	---	--	---	---

		<ul style="list-style-type: none"> - Dros 90% o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg - Pencampwyr y Bwrdd wedi'u penodi ac arfer gorau yn cael yn amlwg a gwelliannau i'r system yn cael eu darparu. 		
16.	Bydd sefydliadau yn diffinio lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ym mhob hysbyseb swydd, yn unol â'r arferion gorau a welir mewn rhai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.	Mae hyn yn rhywbeth sydd angen canllawiau newydd ar lefel genedlaethol. Yn y cyfamser, darparwch enghreifftiau o arfer gorau yn ymwneud â'r pwynt gweithredu hwn yn eich sefydliad.	<p>Mae hyn yn arfer safonol yn BIAP lle nodir bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Er enghraifft, roedd rôl swyddog y Gymraeg a Chydraddoldeb yn gofyn am lefel 4 o sgiliau angenrheidiol mewn siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg; roedd rôl y Cydlynnydd CBT Ar-lein (Cymraeg) yn gofyn am Lefel 3.</p> <p>Lle mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol mewn swydd ddisgrifiadau BIAP, ni nodir unrhyw lefel. Mae hyn oherwydd ei bod yn awgrymu</p>	

			bod lefel uwch yn <i>fwy</i> dymunol na lefel is. Mae'r broses hon yn galluogi rheolwyr recriwtio i roi mwy o bwysau ar lefel uwch o sgiliau Cymraeg, heb orfod trin ymgeiswyr yn gyfartal unwaith y bydd lefel benodol yn cael ei chyrraedd.	
17.	Cyflwyno'n raddol lefel "cwrteisi" sylfaenol o sgiliau Cymraeg, gan wneud staff yn fwy ymwybodol o'r effaith gadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei chael ar unigolion sy'n defnyddio ac yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Cyflwyno'n raddol lefel "cwrteisi" sylfaenol o sgiliau Cymraeg, gan wneud staff yn fwy ymwybodol o'r effaith gadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei chael ar unigolion sy'n defnyddio ac yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.	Mae hyn yn rhywbeth sydd angen canllawiau newydd ar lefel genedlaethol. Yn y cyfamser, rhowch wybodaeth am unrhyw ddatblygiadau yn eich sefydliad gan gynnwys enghreifftiau o arfer gorau.	Mae BIAP yn aros am arweiniad cenedlaethol ar y mater hwn. Mae dadansoddiad o'n lefelau sgiliau staff yn awgrymu bod oedran is yn cyfateb yn gryf â gallu Cymraeg, gan awgrymu y bydd lefelau sgiliau ein staff yn cynyddu'n naturiol gydag amser ni waeth unrhyw ymyriadau ychwanegol.	Mae BIAP yn aml yn recriwtio staff o'r tu allan i Gymru, ac yn gynyddol, yn rhyngwladol. Bydd angen diffinio 'lefel cwrteisi' yn glir, a bydd angen ystyried geiriad unrhyw ganllawiau o'r fath yn ofalus er mwyn osgoi codi braw ar ymgeiswyr posibl. Er enghraifft, lle nad oes gan ddarpar ymgeiswyr sgiliau Cymraeg eisoes, dylid rhoi cyfle iddynt ymrwymo i ddysgu i 'lefel cwrteisi' yn dilyn penodiad (yn hytrach na gorfod dangos hyn yn ystod neu cyn y cyfweiliad).
29.	Byddwn yn casglu ac yn rhannu enghreifftiau o	Rhowch enghreifftiau o arfer da a rennir yn eich	Mae tîm y Gymraeg yn ymgysylltu'n rheolaidd â	

	<p>arferion da arloesol sy'n bosibl ar draws y sector gan ddefnyddio safleoedd porth a hybiau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys yr Hybiau Ymchwilio ac Arloesi.</p>	<p>sefydliad a gyda sefydliadau eraill.</p> <p>I ba raddau ydych chi wedi ymgysylltu â'r canolfannau Ymchwil ac Arloesi i wella gwasanaethau Cymraeg?</p>	<p>chyfoedion ar draws Byrddau lechyd eraill a thu hwnt drwy, er enghraifft, ap 'Bright Ideas' Powys, i rannu arfer gorau.</p>	
30.	<p>Byddwn yn defnyddio'n Pecyn Cymorth Technegol Dwyieithog i sicrhau bod y gwasanaethau digidol yr ydym yn eu caffael a/neu'n datblygu yn cynnwys rhyngwyneb defnyddiwr dwyieithog lle bo hynny'n bosibl. O ran gwefannau gwybodaeth a chyngor byddwn yn dod a chyfieithwyr yn agosach at y broses creu cynnwys, gan gyd-ddrafftio yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel ein bod yn cyfathrebu yn gliriach yn y ddwy iaith.</p>	<p>Rhowch enghreifftiau o ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Technegol Dwyieithog wrth gaffael / datblygu gwasanaethau digidol newydd. I ba raddau y cynhyrchwyd gwasanaethau digidol yn ddwyieithog ac a oes cofnodion o dderbyn gwasanaethau digidol Cymraeg?</p> <p>Darparwch enghreifftiau o gyd-ddrafftio ar gyfer gwefannau gwybodaeth a chyngor. Os na ddigwyddodd hynny, nodwch pam.</p>	<p>Mae BIAP yn parhau i sicrhau datblygiad dwyieithog y gwasanaeth SilverCloud. Mae hyn yn digwydd ar y cyd rhwng contractwyr SilverCloud, Gwasanaeth lechyd Meddwl SilverCloud BIAP a thîm y Gymraeg (a'r cyfieithydd), ond hefyd gyda chymorth y Cydlynnydd CBT Ar-lein (Cymraeg Hanfodol) a benodwyd i dîm SilverCloud at yr union bwrpas hwn.</p> <p>Mae gan dîm cyfathrebu BIAP siaradwyr Cymraeg sy'n cyfrannu at gasglu gwybodaeth yn Gymraeg ar ein platfformau digidol, heb droi at gyfieithu.</p>	
32.	<p>Byddwn yn sicrhau bod Arweinwyr Gweithredol, Hyrwyddwyr a Swyddogion y Gymraeg yn cwrdd yn genedlaethol i rannu arferion gorau er mwyn</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu cyfarfod cenedlaethol ar gyfer rhanddeiliaid perthnasol. Yn y cyfamser, amlinellwch unrhyw</p>	<p>Mae BIAP yn cyfrannu'n llawn at gyfarfodydd a drefnir gan Lywodraeth Cymru gan Swyddogion Iaith Gymraeg GIG Cymru a chyfarfodydd Grŵp Strategol ar wahân</p>	

	<p>sicrhau dull cyson o ymdrin â materion allweddol a datblygu mentrau i ddathlu llwyddiannau, gan gynnwys hyrwyddo <i>Mwy na geiriau</i> mewn cynlluniau gwobrau ac anrhydeddau sydd eisoes yn bodoli.</p>	<p>gyfarfodydd/grwpiau eraill a gynhelir i rannu arfer gorau a sicrhau dull gweithredu cyson.</p> <p>Nodwch hefyd a yw <i>Mwy na geiriau</i> yn cael eu hyrwyddo o fewn gwobrau / anrhydeddau presennol.</p>	<p>arweinwyr Cymraeg GIG Cymru. Mae'r bwrdd iechyd yn cydweithio â phartneriaid lleol e.e. CSP a PAVO drwy fforwm <i>Mwy na Geiriau</i>.</p> <p>Mae hyrwyddo rhagoriaeth o ran darparu gofal iechyd yn y Gymraeg wedi'i gynnwys yn benodol fel enghraifft o weithgaredd y dylid ei ystyried ar gyfer Gwobrau mewnol BIAP.</p>	
35.	<p>Mae arwyddion gweledol nid yn unig yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau i wybod pa staff sy'n siarad Cymraeg, maen nhw hefyd yn cyfleu neges bod y Gymraeg yn rhan 'arferol' o'r broses bob dydd o ddarparu gwasanaeth, ac yn adeiladu ar ethos o berthyn. Byddwn yn ymestyn y prosiect laith Gwaith ledled Cymru er mwyn i weithwyr sy'n gallu cynnig gwasanaethau'n Gymraeg, neu'n rhannol gynnig gwasanaethau'n Gymraeg, allu dangos hynny'n rhwydd drwy</p>	<p>Mae marcwyr gweledol yn cael eu defnyddio'n helaeth i ddynodi staff sy'n siarad Cymraeg, ond mae rhai ardaloedd o hyd lle nad yw'r marcwyr yn cael eu defnyddio ac mae rhai staff yn amharod i wisgo'r bathodyn laith Gwaith.</p> <p>Allwch chi fod yn hyderus bod y mwyafrif helaeth o weithwyr yn eich sefydliadau sy'n gallu cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg yn nodi hynny drwy wisgo bathodyn laith Gwaith?</p>	<p>Yn ystod ymweliadau â safleoedd yn 2022-23 roedd gan bob un ond dau safle frandio clir ar y dderbynfa gyda logo 'laith Gwaith' yn annog ymwelwyr i ddefnyddio'r Gymraeg; cafodd y ddau safle yma boster i'w ddefnyddio yn syth.</p> <p>Mae bathodynau a chortynnau laith Gwaith yn cael eu dosbarthu'n aml yn ystod ymweliadau safle a gellir hefyd gwneud cais amdanynt gyda thîm y Gymraeg.</p>	<p>Weithiau mae BIAP yn cael ei gyfyngu gan ein systemau TGCh (Office, Outlook, Teams ayyb.) gan nad oes ganddynt y gallu i arddangos bob amser e.e. logo laith Gwaith ochr yn ochr â gwybodaeth staff; yn yr un modd y mae ESR yn system ledled y DU. Mae gan BIAP ychydig o allu neu ddim gallu i addasu'r systemau hyn yn uniongyrchol.</p>

	<p>wisgo bathodyn neu gortynnau laith Gwaith. Bydd ein systemau TGCh hefyd yn casglu, yn dangos ac yn rhannu gwybodaeth sy'n rhoi gwybod i ni fel unigolion a staff pwy sy'n gallu siarad Cymraeg a pha wasanaethau y byddan nhw'n eu cynnig yn Gymraeg – er mwyn i ni allu defnyddio ein Cymraeg gyda nhw. (Mae'n bosibl bydd angen cyllid/adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni hyn.)</p>	<p>A oes gan dderbynfeydd/mannau aros frandio clir i ddangos bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig?</p> <p>I ba raddau y defnyddir systemau TGCh i gasglu a rhannu gwybodaeth am ddewis iaith a sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio wedyn?</p>		
37.	<p>Byddwn yn datblygu ymhellach adnoddau geiriadurol, corpws terminoleg o safon uchel, systemau cof iaith ac adnoddau ymarferol i helpu staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, er enghraifft <i>Gair i Glaf</i>. Yn y tymor byr, bydd hyn yn cynnwys swyddogion y Gymraeg a chyfieithwyr yn cydweithio ar gasglu a chyfuno termau ynghyd â gallu a chapasiti cyfieithu.</p>	<p>Rhowch fanylion am unrhyw fentrau yn eich sefydliad yn ymwneud â therminoleg / cyfieithu.</p>	<p>Mae adnodd cyfieithu mewnol BIAP yn defnyddio meddalwedd cof cyfieithu. Mae ein tîm yn fach, fodd bynnag, yn cydweithio'n llawn â chydweithwyr lle bynnag y bo modd, er enghraifft cyfnewid cofion cyfieithu gyda byrddau iechyd eraill / sefydliad y GIG fel Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a chymryd rhan mewn cyfarfodydd safoni terminoleg.</p>	

ADRAN 4 - MONITRO'R CYNNYDD	Bydd pob corff iechyd ac awdurdod lleol yn penodi rhywun i fod yn gyfrifol am sicrhau bod camau gweithredu a thargedau'r cynllun yn cael eu cyflawni.	Nodwch os gwelwch yn dda a yw hyn wedi'i gyflawni ac enw'r person perthnasol.	Mae'r Rheolwr Gwella Gwasanaethau ar gyfer y Gymraeg a Chydraddoldeb yn gyfrifol am fonitro'r Fframwaith Mwy na Geiriau, sy'n rhan o bortffolio Gweithredol Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.	
-----------------------------------	---	---	--	--

Canllawiau ar statws Coch Melyn a Gwyrdd

Coch	Nid yw'r rhan helaeth ar y trywydd iawn ac mae angen gwneud gwelliannau.
Melyn	Rhan helaeth ar y trywydd iawn, ond mae lle i wella.
Gwyrdd	Ar y trywydd iawn.

Rhowch sgôr Coch, Melyn, Gwyrdd cyffredinol

Gwyrdd

Symud Ymlaen: Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2023-24

Yn ystod 2023-24 bydd ein Cynllun Pum Mlynedd gwreiddiol ar gyfer ymgynghoriadau clinigol dan Safon 110 yn dod i ben, a bydd angen datblygu cynllun newydd mewn ymgynghoriad ag adrannau ar draws y sefydliad, gan adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn y pum mlynedd gyntaf ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg. Bydd datblygu'r cynllun hwn yn ddarn pwysig o waith yn ystod y flwyddyn hon. Cynigir hefyd i ymgorffori ein cynllun lleol dan y Fframwaith Mwy na Geiriau yn y cynllun hwn, fel ffordd effeithlon o fynd i'r afael â'r gofynion hyn mewn sefydliad cymharol fach.

Fel y soniwyd yn flaenorol, bydd gwasanaethau newydd eraill yn cael eu rhoi ar waith yn y flwyddyn ganlynol, gydag agoriad swyddogol safle Bro Dyfi ym Machynlleth a lansio gwasanaethau newydd fel 111 #2 (cymorth iechyd meddwl dros y ffôn). Bydd yn hanfodol sicrhau bod y gwasanaethau hyn wedi'u cynllunio o'r dechrau yn bodloni gofynion y safonau.

Yn ogystal, fel rhan o'r ymateb i Archwiliad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, mae angen wedi'i nodi ar gyfer hyfforddiant Cymraeg i Reolwyr; bydd datblygu ac integreiddio'r hyfforddiant hwn i'r rhaglen Datblygiad Arweinyddiaeth BIAP bresennol yn ddarn mawr arall o waith a wneir.

Bydd yr ymateb i'r hysbysiad o ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg i'n cydymffurfiaeth â Safonau 8, 9 a 10 hefyd yn brif flaenoriaeth; dylai unrhyw gamau mewn ymateb i'r ymchwiliad hwn gryfhau cydymffurfiaeth yn y meysydd hyn.

Mae'r golofn 'Camau Gweithredu Arfaethedig yn ystod 2023-24' yn yr adran uchod yn awgrymu llwybrau gwaith pellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Am fwy o wybodaeth ar fanylion yr adroddiad hwn ac am ragor o wybodaeth am sut mae BIAP yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â thîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg drwy anfon e-bost at powys.cymraegachydraddoldeb@wales.nhs.uk.